


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Electronica Products Ltd

Mae Electronica Products Ltd yn arbenigo mewn dylunio moduron a generaduron electronig. Mae hefyd yn cyflenwi rhannau electronig i gwmnïau gweithgynhyrchu pwysig ym maes awyrennau ac offer electronig pob dydd.

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Cafodd y cwmni ei lansio'n breifat ym 1999 a bryd hynny, roedd yn gwneud byrddau cylchred. Bellach, mae'r cwmni o Gaerdydd yn datblygu cynhyrchion arloesol iawn gan gynnwys moduron electronig newydd sydd â gerau magnetig electronig (EMG) ac mae patent arno mewn 25 o wledydd. Mae'r cwmni hefyd yn cynhyrchu gwrthdroyddion oeri dŵr unigryw o'r enw 'SwimDrive' sy'n cael ei defnyddio'n bennaf gan weithgynhyrchwyr 'tybiau twym'.

Llwyddwyd i newid athroniaeth Electronica, yn rhannol gyda help ariannol gan Lywodraeth Cymru. Yn 2003, defnyddiodd y cwmni'r arian i brynu meddalwedd CAD oedd yn ei alluogi i ddylunio ei gynhyrchion ei hun.

Hefyd, gyda help arloesedd a grant gan SMARTCymru, llwyddodd y cwmni i fod yn fwy effeithiol fyth ac aeth ati i gaffael offer electromagetic addas fel bod profion yn gallu cael eu cynnal gan Electronica ei hun. Hefyd, defnyddiodd y cwmni'r arian i ddiogelu Eiddo Deallusol trwy wneud cais am batent yr Undeb Ewropeiadd.

Bellach, mae Electronica mewn trafodaethau gydag un o gwmnïau angori Llywodraeth Cymru sydd hefyd o Gymru i gydweithio ar ddylunio a chynhyrchu amrywiaeth o foduron electronig a rhannau atodol.

Dywedodd Cyfarwyddwr y cwmni, Nabeel Shirazee:

"Pan wnaethom ddechrau defnyddio meddalwedd CAD, meddalwedd magnetig a thermol, dechreuodd Electronica Products Ltd newid o fod yn gwmni oedd yn cyflenwi offer i'r diwydiant electronig i fod yn gwmni sy'n datblygu cynhyrchion newydd a chyffrous. Mae wastad wedi bod yn freuddwyd gen i fod Electronica yn gwmni dylunio arloesol a chreadigol; fyddai hyn ddim wedi bod yn bosibl heb help Llywodraeth Cymru. Rydym wedi creu cysylltiad gwych â'r Arbenigwr Arloesi ac mae hyn wedi arwain at wireddu llawer o'n syniadau gwreiddiol."

Busnes Cymru
Business Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:

**Ebost:** businesssupport@wales.gsi.gov.uk

**Gwefan:** busnes.cymru.gov.uk

**Ffôn:** 03000 6 03000

arloesi

WG17397 / © Hawlfraint y Goron 2014